Ysgol Waunfawr Mai 17eg Llythyr Rhif 22

Er gwybodaeth:

1. Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer swydd dysgu yn yr ysgol nos Fawrth.Rydym yn llongyfarch Mr Llion Jones a benodwyd yn athro yn nosbarth Mynydd Grug Bl 3 ym mis Medi 2019.Bydd y Corff Llywodraethwyr yn anfon manlynion strwythur staffio y dosbarthiadau wedi'r hanner tymor.
2. Diolch i Anti Mari am drefnu yr ail sesiwn garddio gyda blwyddyn derbyn.Mae'r iard fewnol yn edrych yn ddel iawn. Diolch hefyd i Mr Trevor Beech taid Aidah y dosbarth derbyn am ddod i glirio yr ardd o flaen yr ysgol.
3. Llongyfarchiadau i Aled,Osian a Cai o flwyddyn 6 am eu llwyddiant gyda thîm pêl-droed Llewod Llanrug. Bu i'r tîm guro Cynghrair Gwyrfai Gwyrdd o dan 12 a churo Cwpan Cynghrair Gwyrfai.Da iawn chi!
4. Byddwn fel ysgol yn cefnogi yn Wythnos Cenedlaethol Cerdded i'r ysgol ddydd Llun nesaf Mai yr 20fed – 24ain.
5. Bydd y dosbarth Meithrin /Derbyn yn mynd i'r Sw Fôr ddydd Mercher nesaf Mai yr 22ain fel rhan o'u gwaith thema.
6. Rydym yn bwriadu cynnal Diwrnod Mabolgampau yr ysgol ddydd Gwener Mehefin y 7fed os bydd y tywydd yn caniatau.

Yn gywir,
Gwenan Williams

For your information:

1. Following Interviews held on Tuesday night for a teaching post at the school. We congratulate Mr Llion Jones on his appointment as a teacher for Year 3 next September.
   The Governing Body will announce the class structures after the half term.
2. Thanks to Anti Mari for arranging a second gardening session for the Reception children. The inner yard is very colourful. In addition, a special thank you to Aidah's grandfather Mr Trevor Beech for clearing the school garden.
3. Congratulations to Aled,Osian and Cai from Yr 6 on their success with Llanrug Lion's football team. They were crowned Champions of the Gwyrfai League Under 12's they also won the Gwyrfai League Cup. Well done!
4. We will be supporting The National Walking to School week next Monday May the 20th – 24th
5. The Nursery and Reception children will be visiting the Sea Zoo next Wednesday May the 22nd to coincide with their theme of work.
6. Weather permitting our annual Sports day will be held on Friday June the 7th.

Yours truly,
Gwenan Williams